Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Peniel House

Cartref Gofal Peniel House
Peniel
Caerfyrddin
SA32 7HT

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/02/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Peniel House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	PH Opco Cyf
Lleoedd cofrestredig	29
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	[Nodi â Llaw] 29/11/23
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff sy'n llawn cymhelliant. Fodd bynnag, mae cynlluniau personol unigolion yn anghyson ac nid ydynt yn adlewyrchu anghenion yr unigolyn.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Nid yw'r bobl yn cael eu diogelu, ac mae'r darparwr wedi peri risg i'r bobl oherwydd prinder cyfarpar, cyflenwadau a chyfleusterau.

Mae'r cyfathrebu yn parhau i fod yn wael ac yn aneffeithiol gan y darparwr, gan beri risg i'r bobl.

Mae diffygion sylweddol o ran goruchwyliaeth a threfniadau llywodraethu cyffredinol y gwasanaeth. Rydym wedi nodi achosion parhaus o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.

Llesiant

Mae iechyd a llesiant y bobl yn y fantol, ac mae eu llais a'u hawliau yn cael eu peryglu o ddifrif oherwydd bod diffyg goruchwyliaeth gan y darparwr. Ni chaiff diogelwch a llesiant y bobl eu hamddiffyn yn gyson rhag niwed. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw nad ydynt yn ymddiried yn y darparwr o gwbl bellach. Mae'r sefyllfa bresennol yn peri gofid i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn parhau o hyd ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n ymroddedig ac yn uchel eu cymhelliant ac sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion yr unigolion.

Nid yw'r bobl yn cael dewis ble y maent yn treulio eu hamser a chânt eu cyfyngu i'w hystafelloedd gwely. Mae hyn oherwydd bod yr ardal fwyta/lolfa fawr ar gau o hyd. Nid yw'r darparwr wedi gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

Oherwydd y diffyg gwelliant gan y darparwr a'r effaith ar y bobl sy'n byw yn y cartref, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Gofal a Chymorth

Mae gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth glir iawn o'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn llawn hiwmor gan ddangos cydberthnasau da rhwng y bobl a'r staff. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau personol yn anghywir o hyd, sy'n golygu bod y bobl yn wynebu risg o niwed. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Mae'r ffaith bod yr ystafell fwyta/lolfa fawr ar gau o hyd, heb unrhyw gynlluniau i'w hatgyweirio a'i hagor, yn cyfyngu ar nifer y bobl a all gymryd rhan mewn gweithgareddau, sy'n golygu bod yn rhaid i'r bobl dreulio amser yn eu hystafelloedd. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r bobl yn aros yn eu hystafelloedd, gan mai dim ond tri pherson a welsom yn y lolfa fach. Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r bobl yn aros yn eu hystafelloedd. Mae'r darparwr wedi cyflogi cydgysylltydd gweithgareddau sy'n gweithio ar y penwythnosau yn unig. Mae hyn yn golygu bod y gweithgareddau sydd ar gael yn y cartref yn ystod yr wythnos yn gyfyngedig iawn. Dywedodd y staff wrthym eto,*“We don’t have time to provide quality time with people doing what they like especially now”.* Gwelsom fod y staff gofal yn brysur a'u bod yn rhuthro er mwyn gwneud yn siŵr bod holl anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Mae'r bobl yn parhau i wynebu risg o deimlo'n ynysig ac yn unig, a cholli sgiliau cymdeithasol a ffrindiau.

Roedd modd i ni weld y cynlluniau personol a gedwir ar y system gofal ar-lein a oedd yn cynnwys anghysondebau e.e. roedd y cofnod rhoi meddyginiaeth (MAR) yn cynnwys gwybodaeth wahanol i'r cynllun personol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â dau aseswr nyrsys a ddywedodd wrthym “*the care plans are still not good or been up dated, even though we have told them to do this. We have having to rely on staffs knowledge of the people and what the people can tell us”*. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt. Nid yw'r bobl yn cael eu diogelu'n briodol. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o hyd fod y bobl na'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae'r darparwr wedi sicrhau bod gan y bobl gopi o'u cynlluniau personol yn eu hystafelloedd, ond nid yw'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth, byddwn yn cymryd camau gorfodi.

Yr Amgylchedd

Ni all y bobl ddefnyddio pob ardal gymunedol yn y cartref o hyd, oherwydd bod yr ystafell fwyta/lolfa fawr wedi bod ar gau ers mis Awst 2022 oherwydd lleithder. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r bobl i ddewis ble i fwyta eu prydau, gwneud gweithgareddau neu gymdeithasu y tu allan i'w hystafelloedd. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn treulio eu hamser yn eu hystafelloedd. Byddwn yn cymryd camau gorfodi lle bo diffyg gweithredu gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r darparwr.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae AGC wedi clywed am sawl pryder ynghylch trefniadau llywodraethu cyffredinol a sefyllfa ariannol y gwasanaeth sy'n cael effaith ar y bobl.

Mae prosesau goruchwylio'r darparwr yn wael o hyd ac mae diffyg cyfathrebu ac ymgysylltu llawn â'r bobl, y staff ac AGC. Mae AGC wedi gweld gohebiaeth ysgrifenedig sy'n dangos bod cydberthynas wael rhwng y rheolwyr a'r staff.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol na'r darparwr wedi bod yn bresennol i gefnogi na sefydlu'r rheolwr newydd. Nid yw'r darparwr wedi rhyngweithio â'r staff yn ystod y sefyllfa ariannol bresennol hon.

Gadawyd y rheolwr newydd i arwain y sefyllfa ariannol a chefnogi'r bobl a'r staff heb gymorth gan y darparwr. Ni roddwyd unrhyw gymorth i'r rheolwr wrth ymdrin â materion diogelu agored.

Mae wyth hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'u hailgyhoeddi i'r darparwr ac mae hysbysiad gwella wedi'i gyhoeddi i'r Unigolyn Cyfrifol. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod camau wedi'u cymryd i wella'r gwasanaeth a chydymffurfio fel yr amlinellir yn yr hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth, felly rydym wedi cymryd camau gorfodi.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
21	Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n diogelu, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion	Heb Gyflawni
36	Nid yw aelodau o'r staff yn cael eu goruchwylio'n unol â'r rheoliadau. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd ac yn cael arfarniadau blynyddol.	Heb Gyflawni
7	Nid yw'r darparwr yn darparu gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben	Heb Gyflawni
66	Nid yw'r darparwr yn monitro ac yn cefnogi gwelliannau i'r broses o reoli'r gwasanaeth yn	Heb Gyflawni

	effeithiol.	
16	Nid yw'r darparwr yn dangos tystiolaeth bod y bobl, eu teulu/cynrychiolwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'u gofal yn cael eu cynnwys neu'n cael gwahoddiad i gymryd rhan wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal.	Heb Gyflawni
17	Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y bobl yn gallu gweld eu cynlluniau gofal neu fod ganddynt gopïau o'r cynlluniau hynny.	Heb Gyflawni
8	Nid oes gan ddarparwr y gwasanaeth systemau a phrosesau effeithiol i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth.	Heb Gyflawni
6	Nid yw darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio nac yn llywodraethu'r gwasanaeth yn ddigonol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl.	Heb Gyflawni

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 17/03/2023